| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Nadolig Plentyn yng Nghymru |
| Disgrifiad: | Iaith ddisgrifiadol 'Eira'. |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | **Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd**<br>*** Darllen a deall**<br>Bl3:<br>• nodi'n gywir bwnc a phrif syniadau testun, e.e. drwy uwcholeuo, gan ddefnyddio dyddiau allweddol y testun<br>Bl4:<br>• nodi'n gywir y prif syniadau a'i wybodaeth ategol mewn testunau<br>Bl5:<br>• dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testunau<br>* **Ymateb a dadansoddi**<br>Bl6:<br>• cydgasglu a gwneud cysylltiadau |
| Testun Dylan Thomas | *Nadolig Plentyn yng Nghymru* |
| Offer angenrheidiol: | • Testun agoriadol: "Yn y blynyddoedd hynny ... a'r dynion tân."<br>• Delweddau o eira<br>• Dyfyniadau eira a thaflen gweithgaredd marcio<br>• Enghraifft a thempled cerdyn Tabŵ |
| Trefn a awgrymir: | • Darllen testun agoriadol *Nadolig Plentyn yng Nghymru* (gweler Gweithgaredd 1) a thrafod teitl a themâu'r stori. Edrychwch ar y tywydd yn yr olygfa agoriadol.<br>• Trafodwch sut aeth Dylan ati i greu patrymau o eiriau wedi'u cysylltu ag ystyr.<br>• Gan ddefnyddio 'Eira' fel yr enghraifft. Darllenwch rai o'r dyfyniadau o'r testun sy'n defnyddio iaith greadigol i ddisgrifio'r tywydd. Ar beth mae'r dysgwyr yn sylwi wrth edrych ar y technegau sy'n cael eu defnyddio? (Cyflythreniad, cymariaethau, trosiadau, personoli, gosod dau neu dri gair wrth ei gilydd...)<br>• Dylai'r dysgwyr ddefnyddio paragraff o dudalen 15 i farcio'r iaith ddisgrifiadol yn y testun sy'n gysylltiedig ag eira.<br>• Chwaraewch 'Tabŵ' gyda'r dosbarth. A ydyn nhw'n gallu rhestru geiriau a allai ddisgrifio eira, ond 'Geiriau'r Brif Gynghrair' (tawel, les, caseg eira, lluwchio) nid 'Geiriau'r Bencampwriaeth' (gwlyb, oer, gwyn, rhewllyd)?<br>• A all y dysgwyr weithio mewn parau i greu cerdyn 'Tabŵ ar gyfer geiriau eraill sy'n gysylltiedig â'r Nadolig fel anrhegion, coeden, carolau, addurniadau, ac ati?<br>• Chwaraewch gêm ddosbarth o Tabŵ |

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau estyn: | • Gwnewch gwmwl geiriau gan ddefnyddio geiriau'r eira (www.wordle.net neu aps fel *Wordsalad*, C*loudart*, *Visual Poetry, TagCloud* neu *Word Collage*). Gellir defnyddio'r Delweddau o eira fel symbyliad.<br>• Gosodwch y geiriau disgrifiadol dros ddelweddau o olygfeydd eira gan ddefnyddio ap *WordFoto* neu *Typedraw*. |